

## Atal gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws rhag gwaedu drwy osod pibell rwyll ymestynnol

*Mae arweiniad  
Techlechydd NICE  
yn rhoi cyngor i'r  
GIG ynghylch pryd  
a sut y gellir  
defnyddio  
triniaethau  
llawfeddygol  
newydd mewn arfer  
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio pibell rwyll ymestynnol (a elwir yn stent) yn y GIG i drin pobl sydd â gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws (y bibell sy'n cario bwyd o'r gwddf i'r stumog) sy'n gwaedu. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau'n cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Dim ond nifer fach o gleifion y mae'r dystiolaeth hon yn ymwneud â hwy. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth ei bod yn ddiogel ac yn gweithio'n dda yn achos cleifion dethol nad yw triniaethau eraill wedi gweithio ar eu cyfer i reoli'r gwaedu. Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws sy'n gwaedu, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

*Efallai nad hon fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws sy'n gwaedu. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.*

## Atal gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws rhag gwaedu drwy osod pibell rwyll ymestynnol

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'gosod stent ar gyfer gwythiennau chwyddedig oesoffagaidd'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gall cleifion sydd â sirosis yr iau/afu (lle mae'r iau/afu wedi ei greithio oherwydd niwed parhaus dros gyfnod hir) ddatblygu pwysedd gwaed uchel yn y gwythiennau sy'n cludo gwaed o'r system dreulio i'r iau/afu. Y term meddygol am hyn yw gorbwysedd porthol.

Gall hyn wneud i'r gwythiennau yn yr oesoffagws chwyddo'n annormal (gelwir hwy'n wythiennau chwyddedig oesoffagaidd) a gallant waedu. Heb driniaeth, gellir colli llawer o waed a all arwain at farwolaeth. Ceir

risg uchel hefyd y bydd y gwythiennau yn gwaedu eto ar ôl triniaethau normal.

Yn aml bydd angen trallwysiad gwaed ar gleifion sydd â gwythiennau chwyddedig oesoffagaidd. Gellir atal y gwaedu drwy feddyginiaeth a llawdriniaeth. Os na fydd y gwaedu'n stopio, efallai y bydd angen triniaethau eraill ar gleifion.

Yn y driniaeth hon, caiff stent ei osod yn yr oesoffagws gan ddefnyddio dyfais cyflwyno arbennig. Pan fydd y stent yn ei le, caiff ei chwyddo, gan roi pwysau ar ochrau'r oesoffagws. Y nod yw cywasgu'r gwythiennau chwyddedig i atal y gwaedu. Gadewir y stent yn ei le am hyd at bythefnos cyn ei dynnu. Fel arfer gall y person lyncu hylif a rhywfaint o fwyd pan fydd y stent yn ei le.

Efallai y bydd angen triniaethau eraill yn ddiweddarach er mwyn lleihau'r risg o waedu pellach.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod stentau yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth. Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael  
y driniaeth hon, cael  
triniaeth wahanol,  
neu beidio â chael  
triniaeth o gwbl.*

## **Crynodeb o fanteision a risgiau posibl**

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth o'r driniaeth hon.

## **Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?**

Nododd dwy astudiaeth o 34 ac 20 o gleifion fod y driniaeth wedi atal y gwaedu yn achos pob claf ac ni wnaeth y gwaedu aildddechrau o fewn 60 diwrnod. Yn un o'r astudiaethau, roedd angen i 14 allan o 20 o gleifion gael triniaeth bellach ar ôl tynnu'r stent. Yn yr astudiaeth o 34 o gleifion, roedd angen triniaeth bellach ar 24 o gleifion.

Mewn astudiaeth arall, cafodd y gwaedu ei atal yn achos 7 allan o naw o gleifion. Ailddechreuodd y gwaedu yn achos un claf, a chafodd driniaeth lawfeddygol arall lwyddiannus.

Yn y tair astudiaeth a nodir uchod, bu farw cyfanswm o 17 o gleifion rhwng 42 a 60 o ddiwrnodau ar ôl y driniaeth. O'r rhain, bu farw dau glaf am eu bod wedi colli llawer o waed, bu farw un o ganlyniad i fethiant organnau lluosog a methiant i reoli'r gwaedu, a bu farw'r gweddill o ganlyniad i fethiant yr iau/afu neu fethiant organnau lluosog.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y canlyniadau llwyddiant allweddol yn cynnwys rheoli'r gwaedu, lleihau'r risg bod y gwaedu'n aildddechrau, llai o angen i ddefnyddio cynhyrchion gwaed, a goroesi.

## **Risgiau a phroblemau posibl**

Nododd astudiaeth o un claf rwystr yn y llwybrau anadlu ar y chweched diwrnod, a wellwyd drwy dynnu'r stent.

Yn yr astudiaethau o 34 ac 20 o gleifion, roedd y stent wedi symud i'r stumog yn achos 7 allan o 34 o gleifion pan gawsant eu harchwilio ar ôl 60 diwrnod. Cynhaliwyd llawdriniaethau i symud pob stent yn ôl i'w le priodol o fewn 24-48 awr. Yn yr astudiaeth arall o 20 o gleifion, roedd y stent wedi symud i'r stumog yn achos pump o gleifion, a rhoddwyd pob un yn ôl yn llwyddiannus.

Nododd yr astudiaeth o 34 o gleifion fod gan un claf fân wserau yn yr oesoffagws o fewn 60 o ddiwrnodau o gael y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y problemau'n cynnwys niwed i leinin yr oesoffagws pan gafodd y stent ei dynnu, twll yn yr oesoffagws, wserau pwyso yn yr oesoffagws, ffurfio cysylltiadau annormal rhwng pibellau, gwaedu'n gwaethygu, methu â thynnu dyfais, a niwmonia yn cael ei achosi drwy anadlu deunydd estron. Dywedasant hefyd mewn egwyddor y gellid cael problemau wrth lyncu.

## Rhagor o wybodaeth am wythiennau chwyddedig oesoffagaidd

Gall NHS Choices ([www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk)) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i [www.nice.org.uk/aboutguidance](http://www.nice.org.uk/aboutguidance)*

*Mae'r daflen hon am 'osod stent ar gyfer gwythiennau oesoffagaidd chwyddedig sy'n gwaedu'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn [www.nice.org.uk/guidance/HTG261](http://www.nice.org.uk/guidance/HTG261)*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; [www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)

ISBN 978-1-4731-8428-2

N2564 1P April 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes.

No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.